

Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru

Fframwaith Monitro a Gwerthuso
Cynllun Addasu'r Sector



Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol
Is-grŵp Newid Hinsawdd

Mehefin 2021

Cynnwys

Cyflwyniad i Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cynllun Addasu'r Sector	2
I Dangosyddion a Chamau Gweithredu	3
1.1 Dangosyddion Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd	3
1.2 Camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Addasu'r Sector i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar amgylchedd hanesyddol Cymru	3
2 Methodoleg	4
3 Monitro a Llywodraethu	5
4 Adrodd a Gwerthuso	5
5 Rolau a Chyfrifoldebau	6
5.1 Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol	6
5.2 Cylch Gorchwyl Is-grŵp Newid Hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol	6
5.2.1 Rôl	6
5.2.2 Aelodau	7
5.2.3 Amserlen Cyfarfodydd	7



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales



Cyflwyniad i Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cynllun Addasu'r Sector

Yn 2020, cyhoeddodd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol y ddogfen *Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru: Cynllun Addasu'r Sector*,¹ gan adeiladu ar y camau gweithredu strategol lefel uchel a nodwyd yng nghynllun addasu Llywodraeth Cymru *Ffyniant i bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd (Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd)*.²

Mae Cynllun Addasu'r Sector yn nodi peryglon a chyfleoedd y newid yn yr hinsawdd i'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, a'r angen i addasu. Ei nod yw hyrwyddo cydweithio a gweithredu.

Mae proses addasu Cynllun Addasu'r Sector yn cynnwys pum cam sy'n cael eu dangos yn y diagram isod. Pumed cam, a cham olaf, y cylch addasu yw 'monitro a gwerthuso'.

Mae monitro a gwerthuso unrhyw gynllun gweithredu yn hanfodol er mwyn asesu ei effeithiolrwydd.

Mae'n rhaid i'r broses nodi'r dangosyddion sylfaenol a'r camau gweithredu a ddefnyddir i fesur tystiolaeth benodol yn rheolaidd er mwyn adolygu cynnydd.

Bydd y fframwaith monitro a gwerthuso'n galluogi Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol a'i randdeiliaid i ddeall, monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn camau gweithredu Cynllun Addasu'r Sector a gyhoeddwyd, a nodi bylchau a meysydd blaenoriaeth sydd angen mwy o sylw.

Bydd y broses yn digwydd ochr yn ochr â fframwaith monitro a gwerthuso cynllun addasu cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd, er mwyn sicrhau prosesau adrodd cyson. Bydd y gwaith yn cael ei gydgyssylltu gan Is-grŵp Newid Hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol mewn cydweithrediad â'r arweinwyr camau addasu.



¹ www.llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd

² www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/newid-hinsawdd/addasu-i-newid-hinsawdd

I Dangosyddion a Chamau Gweithredu

I.1 Dangosyddion Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd,³ y cynllun addasu cenedlaethol

Gofalu am yr amgylchedd hanesyddol

HE1. Gwybodaeth: Llunio a chyhoeddi *Cynllun Addasu Sector yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Newid yn yr Hinsawdd*.

HE2. Gwybodaeth: Deall yn well y bygythiadau a'r cyfleoedd i'r amgylchedd hanesyddol o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd.

HE3. Gallu: Datblygu methodolegau, arfau a chanllawiau i wella'r gallu i addasu.

HE4. Cydnerthedd: Gwneud yr amgylchedd hanesyddol yn fwy cydnerth trwy gymryd camau er mwyn ymateb ac addasu i'r risgiau.

Gwarchod ein harfordiroedd a'n moroedd

MCI. Gwneud cynefinoedd a threftadaeth ym mharthau arfordirol Cymru yn fwy cydnerth rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

MC4. Cynnal ymchwil i ddeall yn well effaith y newid yn yr hinsawdd ar ecosystemau morol, gwasanaethau ecosystem a threftadaeth forol.

I.2 Camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Addasu'r Sector⁴ i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar amgylchedd hanesyddol Cymru

Mae'r prif gamau gweithredu yng Nghynllun Addasu'r Sector wedi'u dosbarthu'n saith thema o dan dri amcan cyffredinol a chysylltiedig cynyddu gwybodaeth, cynyddu capasiti a datblygu cydnerthedd. Rhestrir manylion llawn allbynnau a deilliannau cyffredinol pob cam gweithredu yng Nghynllun Addasu'r Sector:

Gwybodaeth: Cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r bygythiadau a'r cyfleoedd i'r amgylchedd hanesyddol o hinsawdd sy'n newid

1. Cyfnewid gwybodaeth/cydweithio
2. Mapio a monitro'r adnodd
3. Blaenoriaethau ymchwil

Capasiti: Datblygu'r methodolegau, yr adnoddau a'r canllawiau i weithio gydag eraill a datblygu capasiti i addasu

4. Lledaenu a hyrwyddo
5. Cydweithio
6. Hyfforddiant a chanllawiau

Cydnerthedd: Cynyddu cydnerthedd yr amgylchedd hanesyddol trwy roi camau ar waith i ymateb ac addasu i'r peryglon

7. Gweithredu

³ www.llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd

⁴ www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/newid-hinsawdd/addasu-i-newid-hinsawdd

2 Methodoleg

Defnyddir tystiolaeth ansoddol a meintiol i fonitro a gwerthuso Cynllun Addasu'r Sector a Chymru sy'n Effro i'r Hinsawdd. Bydd tystiolaeth ansoddol yn cynnwys datblygu naratif yn ymwneud ag addasu, tystiolaeth o newid, ac astudiaethau achos yn ymwneud ag ymarfer sy'n lleihau'r risg a'r bygythiad o newid yn yr hinsawdd. Dim ond lle mae'r camau gweithredu yn dylanwadu'n glir ar y dangosyddion, a lle mae adnoddau ar gael i'w mesur y bydd tystiolaeth feintiol yn cael ei defnyddio.

Nodir dangosydd, gwaelodlin, naratif neu fesur priodol i fonitro a gwerthuso cynnydd ar gyfer pob cam gweithredu yng Nghynllun Addasu'r Sector. Bydd y cwestiynau canlynol yn helpu i lunio'r broses fonitro a gwerthuso:

- a yw allbynnau'r cam gweithredu arfaethedig yn cael eu cyflawni?
- a yw'r cam gweithredu yn arwain at y deilliant/effaith/newid dymunol?

- a yw'r cam gweithredu yn lleihau risg/bygythiadau?
- a yw'r cam gweithredu wedi ysgogi newid?
- pa gynhyrchion sydd wedi'u darparu, er enghraifft, pecynnau cymorth, mapio a chanllawiau

Bydd tabl camau gweithredu Cynllun Addasu'r Sector yn cael ei ddiweddararu trwy ychwanegu camau gweithredu newydd fel sy'n briodol. Bydd gwaith cofnodi gweithgareddau yn erbyn y camau gweithredu a monitro eu cynnydd a'u heffaith yn broses barhaus.

Mae'r fethodoleg hon yn cyd-fynd â Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd Llywodraeth Cymru.⁵



Dŵr ffo ar yr wyneb ac erydiad lôn werdd wedi suddo yn AHNE Dyffryn Gwy
© Partneriaeth AHNE Dyffryn Gwy

⁵ www.llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd-fframwaith-monitro-gwerthuso

3 Monitro a Llywodraethu

Camau	Gweithgaredd llywodraethu	Deiliant
1	Bydd Is-grŵp Newid Hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol yn gofyn yn ffurfiol am dystiolaeth yn ymwneud â dangosyddion Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd a chamau gweithredu Cynllun Addasu'r Sector gan Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol a phartneriaid cyflenwi allanol eraill.	Tystiolaeth o weithgarwch
2	Bydd Is-grŵp Newid Hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol yn ystyried y dystiolaeth ac yn paratoi adroddiad dros dro i'w gyflwyno i Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol ar gyfer cymeradwyaeth.	Adroddiad dros dro wedi'i gymeradwyo gan Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol
3	Bydd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol/yr Is-grŵp Newid Hinsawdd yn cyhoeddi'r adroddiad a'i rannu ag Uwch Gyngorydd y Gallu i Wrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd (SCCRA) Llywodraeth Cymru.	Adroddiad dros dro Cynllun Addasu'r Sector; wedi'i gyhoeddi ym mlyneddodd 1, 2 a 3
4	Bydd Is-grŵp Newid Hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol yn comisiynu adolygiad a gwerthusiad allanol o weithgareddau yn erbyn y camau gweithredu a'r deilliannau. Bydd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y dangosyddion a'r camau gweithredu i Weinidogion Cymru.	Adroddiad monitro a gwerthuso allanol llawn ym mlwyddyn 4; adrodd i Weinidogion Cymru
5	Bydd Cynllun Addasu'r Sector yn cael ei ddiweddarau bob pum mlynedd. Gwneir cysylltiadau â dogfen Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd Llywodraeth Cymru ac Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd (CCRA) y DU6.	Adolygu a diweddarau Cynllun Addasu'r Sector ym mlwyddyn 5

4 Adrodd a Gwerthuso

Blwyddyn	Deiliant	Camau	Amserlen
1	Adroddiad dros dro ar weithgarwch	1–3	2020–21
2	Adroddiad dros dro ar weithgarwch	1–3	2021–22
3	Adroddiad dros dro ar weithgarwch	1–3	2022–23
4	Adroddiad monitro a gwerthuso llawn	1–4	2023–24
5	Cynllun Addasu'r Sector wedi'i ddiweddarau	5	2024–25

Cyhoeddir adroddiadau monitro a gwerthuso Cynllun Addasu'r Sector ar wefan Cadw. www.cadw.llyw.cymru/

⁶ www.theccc.org.uk/

5 Rolau a Chyfrifoldebau

5.1 Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol

Mae Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol yn fforwm lefel uchel a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru i fwrw trosolwg strategol dros faterion a chyfleoedd yn yr amgylchedd hanesyddol a hyrwyddo dulliau gweithredu cyffredin. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r prif sefydliadau yng Nghymru sydd â diddordeb yn yr amgylchedd hanesyddol er mwyn:

- hyrwyddo partneriaeth a chydweithio
- hyrwyddo cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- cefnogi camau gweithredu cydgysylltiedig wrth gyflawni blaenoriaethau strategol
- cyfrannu at y broses o ddatblygu strategaeth a pholisi.

Un o feysydd gweithgarwch allweddol Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol yw mynd i'r afael â her y newid yn yr hinsawdd yn yr amgylchedd hanesyddol. Aeth Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol ati i sefydlu'r Is-grŵp Newid Hinsawdd er mwyn cynorthwyo'r broses hon.

Mae gan Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol gysylltiadau agos â'r Is-grŵp, ac mae aelodau yn cynnig cyngor strategol ac yn cymryd rhan yn y meysydd canlynol:

- cyfrannu gwybodaeth, syniadau a chamau gweithredu yn ymwneud â risg newid yn yr hinsawdd yng Nghymru
- cydgysylltu darpariaeth a chyfraniad y sefydliad at Gynllun Addasu'r Sector
- cynghori a hyrwyddo ymgysylltiad â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau er mwyn hwyluso gwaith effeithiol a'r defnydd gorau o adnoddau
- gweithio gyda swyddogion ledled Cymru i ymwreiddio Cynllun Addasu'r Sector mewn datganiadau polisi, cynlluniau, codau a phenderfyniadau llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol
- darparu prosesau llywodraethu ar gyfer monitro ac adolygu Cynllun Addasu'r Sector.

Bydd y newid yn yr hinsawdd yn eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol er mwyn darparu diweddariadau cryno yn ôl yr angen, ac fel eitem fwy sylweddol ar yr agenda wrth drafod dulliau llywio/strategol ac wrth adrodd ar gamau gweithredu Cynllun Addasu'r Sector.

5.2 Cylch Gorchwyl Is-grŵp Newid Hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol

5.2.1 Rôl

Rôl Is-grŵp Newid Hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol yw asesu ac adrodd ar sut y dylai sector yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru fynd i'r afael â her newid yn yr hinsawdd. Dyma nodau'r is-grŵp:

- goruchwyllo'r broses o gyflwyno Cynllun Addasu'r Sector yn effeithiol
- dehongli peryglon newydd a pheryglon sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, ac unrhyw gamau gweithredu newydd sydd eu hangen er mwyn ymateb
- cynnal cysylltiadau â Llywodraeth Cymru a Phwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd
- sefydlu a chydgysylltu gweithgorau yn ôl yr angen er mwyn cyflawni blaenoriaethau Cynllun Addasu'r Sector
- adrodd ar weithgareddau partneriaid cyflawni ac adolygu cynnydd yn erbyn amserlen camau gweithredu Cynllun Addasu'r Sector
- monitro, gwerthuso ac adrodd i Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol ar y dangosyddion a'r camau gweithredu a nodir yn y ddogfen Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd a Chynllun Addasu'r Sector
- bod yn ddolen gyswllt allweddol rhwng unrhyw weithgorau gan sicrhau llif gwybodaeth a chyngor cyson rhwng y grwpiau.

5.2.2 Aelodau

- Llywodraeth Cymru, Cadw
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- YrYmddiriedolaeth Genedlaethol
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent.

5.2.3 Amserlen Cyfarfodydd

- Cynnal isafswm o dri chyfarfod y flwyddyn cyn cyfarfodydd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol.
- Cynnal cyfarfodydd ychwanegol yn unol â'r hyn y cytunir arno gan yr is-grŵp.
- Cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ar ffurf rithwir, neu drwy gyfuniad o'r ddau ddull.

Grŵp yr Amgylchedd
Hanesyddol (HEG)

Is-grŵp Newid
Hinsawdd HEG

Gweithgorau

